

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau drafft i reolau

Rheolau (Cofrestriad) CFfC 2010

Rheolau (Cymhwyster i Ymarfer a

Diarddeliad ac ati) CFfC 2010, a

Rheolau (Pwyllgorau Statudol a'u

Cynghorwyr) CFfC 2010

Medi 2015

Gellir atgynhyrchu'r testun (ond nid y logo a'r brandio) sydd yn y ddogfen hon am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyddestun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2015

Cynnwys

Trosolwg	4	Diwygiadau i Reolau Cofrestriad CFfC	12
Y broses ymgynghori	5	Diwygiadau i Reolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad ac ati y CFfC	19
Cefndir	7	Sut i ymateb	22
Trefniadau indemniad	8	Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	23
Gwybodaeth o'r Saesneg	9	Monitro cydraddoldeb	31
Diwygiadau i Reolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr y CFfC	10	Atodiad 1 Drafft y Diwygiad i Reolau Darpariaethau Amrywiol CFfC 2015	33

Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw **Dydd Iau 17 Rhagfyr 2015**.

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau drafft i reolau

1. Trosolwg

Mae'r CFFC yn ymgynghori hyd **Ddydd Iau 17 Rhagfyr 2015** ar newidiadau yr ydym yn eu cynnig i'n rheolau. Prif ddiben y cynigion hyn yw gweithredu'r gofynion statudol i gofrestrai gael trefniadau indemniad priodol mewn grym ac i fod â gwybodaeth o'r Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol, fel amodau ei gofrestriad gyda ni. Byddai'r newidiadau hefyd yn cyflwyno mesurau i osgoi gwrthdaro buddiannau a allai godi o aelodaeth gyffredin o'r paneli Pwyllgor Apeliadau a Phwyllgor Cymhwyster i Ymarfer.

Ein diben yw diogelu cleifion a'r cyhoedd drwy osod a chynnal safonau ym maes fferylliaeth. O gofio'r nod hwn, rydym yn cynnig newidiadau i'r rheolau sy'n llywodraethu ein prosesau cofrestru, ein hachosion cymhwyster i ymarfer a'n pwyllgorau statudol. Byddai'r diwygiadau a gynigir gennym yn effeithio ar y canlynol:

Rheolau (Cofrestriad) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010 (O.S. 2010/1617)

Rheolau (Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad ac ati) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010 (O.S. 2010/1615)

Rheolau (Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010 (O.S. 2010/1616)

Gellir gweld fersiynau presennol y rheolau hyn ar ein gwefan yn www.pharmacyregulation.org/about-us/what-we-do/legislation/pharmacy-order-2010-and-rules. Nid yw'r fersiynau cyfunol hyn yn destun swyddogol; dylai defnyddwyr edrych ar fersiwn swyddogol y ddeddfwriaeth at ddiben dehongli a chymhwyso'r gyfraith.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn rydym yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ynglŷn â'r dystiolaeth, y wybodaeth a'r dogfennau a allai gael eu darparu gan ymgeisydd at ddiben bodloni'r Cofrestrydd bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, a'r broses a ddefnyddir gan y Cofrestrydd i benderfynu a yw'n fodlon bod gan y person y wybodaeth hon. Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar y canllawiau ar ein gwefan yn www.pharmacyregulation.org/rules-and-guidance-consultation.

2. Y broses ymgynghori

Mae'r cyngor wedi rhoi sylw gofalus i ystod o wybodaeth a thystiolaeth wrth ystyried yr ymgynghoriad hwn ar newidiadau i reolau. Fodd bynnag, rydym eisiau profi ein syniadaeth ac mae'r cyngor am wneud y penderfyniadau gorau posibl pan fydd yn cyfarfod i ystyried gwneud newidiadau i'n rheolau. Rydym angen cymorth gan y rheini sydd â gwybodaeth a barn er mwyn profi ein dull cyffredinol ar gyfer gweithredu'r newidiadau hyn yn ogystal â'r cynigion penodol ac effaith neu fanteision posibl y newidiadau. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am unrhyw gynigion, neu'r holl gynigion, a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 12 wythnos a bydd yn cau ar Ddydd Iau 17 Rhagfyr 2015. Yn ystod y cyfnod hwn byddem yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioliadol proffesiynol a chyflogwyr a hefyd cyrff cynrychioliadol cleifion. Gobeithiwn y byddant yn rhoi sylw i'r ymgynghoriad hwn ac yn ystyried ymateb.

Gallwch lawrlwytho mwy o gopiâu o'r ddogfen hon o'n gwefan neu gallwch ofyn i ni am gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith arall).

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn nifer o wahanol ffyrdd:

Gallwch lenwi'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i'n gwefan a llenwi un ar-lein yn www.pharmacyregulation.org/rules-and-guidance-consultation.

Os ydych yn llenwi'r holiadur, anfonwch ef at:

- e-bost
consultations@pharmacyregulation.org
gyda'r pwnc 'Ymgynghoriad diwygiadau i reolau'
- cyfeiriad
Amendments to rules consultation response
Rules lead, Strategy directorate
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London
E14 5LQ

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau yr hoffech eu gwneud yn benodol am y broses ymgynghori, anfonwch hwy at:

- e-bost
feedback@pharmacyregulation.org

neu

- cyfeiriad
Amendments to rules consultation process
Strategy directorate
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London
E14 5LQ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriadau hyn.

Adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi ei dod i ben byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gennym a bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r rhain wrth wneud ei benderfyniadau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac eglurhad o'r penderfyniadau a wnaed. Bydd hwn ar gael ar ein gwefan

www.pharmacyregulation.org

Bwriada'r Cyngor ystyried gwneud y newidiadau arfaethedig i reolau yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2016 a byddai'r newidiadau'n dod i rym unwaith y bydd eu prosesau seneddol wedi eu cwblhau.

3. Cefndir

Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain Fawr. Ein rôl yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae ein prif rolau'n cynnwys:

- cymeradwyo cymwysterau ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ac achredu darparwyr addysg a hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol
- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, moesegau, perfformiad, hyfedredd, addysg a hyfforddiant, a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- sefydlu a hyrwyddo safonau ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol mewn fferyllfeydd cofrestredig
- sefydlu gofynion cymhwyster i ymarfer (FtP), monitro FtP gweithwyr fferyllol proffesiynol a delio'n deg a chymesur â chwynion a phryderon

Y prif ddarnau deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r CFfC yw Gorchymyn Fferylliaeth 2010 (O.S. 2010/231) a Deddf Meddyginiaethau 1968 (t. 67). Nodir darpariaethau manylach yn ymwneud â'n swyddogaethau rheoleiddiol mewn offeryn statudol a elwir yn 'rheolau'. Byddai'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig i'n rheolau yn cael eu gwneud o dan y Gorchymyn Fferylliaeth.

Gellir gweld testun llawn y newidiadau arfaethedig i'n rheolau yn atodiad 1.

4. Trefniadau indemniad

- 4.1 Gwnaed Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Trefniadau Indemniad) (O.S. 2014/1887) y llynedd. Roedd yn diwygio Gorchymyn Fferylliaeth 2010 er mwyn gweithredu gofyniad i weithwyr proffesiynol sy'n ymarfer fod ag yswiriant neu drefniadau indemniad fel amod cofrestrriad. Roedd hefyd yn gweithredu erthygl 4(2)(d) Cyfarwyddeb 2011/24/EC sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i aelod wladwriaethau gael system yswiriant atebolrwydd proffesiynol neu debyg ar waith parthed gofal iechyd traws-ffiniol ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth yn eu haelod wladwriaeth.
- 4.2 Roedd rhwymedigaeth eisoes ar gofrestrredigion, o dan erthygl 32 y Gorchymyn Fferylliaeth, i fod ag yswiriant indemniad priodol mewn grym. Mae safonau'r CFfC hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gofrestrredigion sicrhau bod eu holl waith, neu waith y maent yn gyfrifol amdano, wedi ei yswirio gan yswiriant indemniad proffesiynol priodol. Diffiniodd y Gorchymyn Trefniadau Indemniad 'yswiriant priodol' fel yswiriant yn erbyn rhwymedigaethau y gellir eu cael wrth ymarfer fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol sy'n briodol, o ystyried natur a maint y risgiau wrth ymarfer felly. Rhaid i'r yswiriant hwn fod mewn grym erbyn yr adeg y bydd y person yn dechrau ymarfer (yn hytrach nag, fel yn flaenorol, ar ddyddiad cofrestrriad). Nid yw'r gofynion indemniad yn gymwys i fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol
- ar ymweliad o wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol. Mae gofyn i ymarferwyr ar ymweliad ddarparu datganiad sy'n cynnwys manylion y trefniadau indemniad sydd ganddynt ar waith. Maent wedi eu cofrestru yn rhan 4 (ar gyfer fferyllwyr ar ymweliad) neu ran 5 (ar gyfer technegwyr fferyllol ar ymweliad) ein cofrestr ar sail eu sefydliad cyfreithiol yn eu haelod wladwriaeth cartref.
- 4.3 Gwnaeth y Gorchymyn Trefniadau Indemniad rai diwygiadau dilynol i'r Rheolau Cofrestrriad. Mae'r diwygiadau a gynigir i'r rheolau yma yn adeiladau ar y rhain er mwyn nodi mewn rhagor o fanylder y wybodaeth sydd angen ei darparu gan ymgeiswyr neu gofrestrredigion a'r camau y gellir eu cymryd os nad yw cofrestrai yn cydymffurfio â'r gofynion indemniad.

5. Gwybodaeth o'r Saesneg

- 5.1 Lluniwyd Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Gwybodaeth o'r Saesneg) (O.S. 2015/806) ym mis Mawrth 2015. Mae'n diwygio'r Gorchymyn Fferylliaeth er mwyn cryfhau pwerau'r CFC i gyflwyno rheolaethau iaith teg a chymesur a'i gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr o'r UE ddarparu tystiolaeth ynglŷn â'u gwybodaeth o'r Saesneg, yn dilyn cydnabyddiaeth o'u cymhwyster proffesiynol ond cyn cofrestrriad.
- 5.2 Mae'r Gorchymyn Gwybodaeth o'r Saesneg yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r CFC ymgynghori a chyhoeddi canllawiau yn nodi'r dystiolaeth, y wybodaeth neu'r dogfennau y gall ymgeisydd eu darparu er mwyn dangos bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg er mwyn ymarfer yn ddiogel ac effeithiol fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol. Rydym yn ymgynghori ar y canllawiau drafft hyn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar newidiadau i'n rheolau. Fe welwch hwn ar ein gwefan yn www.pharmacyregulation.org/rules-and-guidance-consultation.
- 5.3 Mae'r gofyniad i fod â gwybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg er mwyn ymarfer yn ddiogel ac effeithiol yn berthnasol i bob ymgeisydd a chofrestrai. Bydd gan unrhyw berson y gwrthodir cofrestrriad iddo ar sail ei fod wedi methu bodloni'r Cofrestrydd bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg yr hawl i apelio.
- 5.4 Mae'r Gorchymyn Gwybodaeth o'r Saesneg yn creu categori newydd o amhariad ar gymhwyster i ymarfer parthed cymhwysedd mewn Saesneg. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddechrau camau cymhwyster i ymarfer mewn achosion lle gallai gwybodaeth gweithwyr fferyllol proffesiynol o'r Saesneg beri risg difrifol i ddiogelwch cleifion.

6. Diwygiadau i Reolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr y CFfC

- 6.1 Byddai'r diwygiadau a gynigir yn yr adran hon yn effeithio ar Reolau Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) 2010 (O.S. 2010/1616).

Aelodaeth gyffredinol o baneli'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer a Phwyllgor Apeliadau

- 6.2 Mae gan y CFfC dri phwyllgor statudol:

Pwyllgor Ymchwilio – mae'r pwyllgor hwn yn ystyried honiadau yr amharwyd ar gymhwyster cofrestrai i ymarfer a bydd yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer ar gyfer ymchwiliad llawn. Mae'r pwyllgor hefyd yn ystyried a ddylai CFfC ddechrau achos cyfreithiol o dan unrhyw rai o'i bwerau gorfodi.

Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer - mae'r pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniadau mewn achosion lle gallai cymhwyster cofrestrai i ymarfer fod wedi ei amharu. Bydd hefyd yn ystyried honiadau y dylai perchennog fferyllfa gael ei wahardd ac y dylai eiddo fferyllfa gael ei ddileu oddi ar y gofrestr.

Pwyllgor Apeliadau - mae'r pwyllgor hwn yn ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â chofrestrriad neu gymeradwyaeth darparwyr addysg, fel y rhestrir yn erthygl 39 y Gorchymyn Fferylliaeth.

- 6.3 Mae'r Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr yn caniatáu i bersonau fod yn aelodau o'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer (FtPC) a'r Pwyllgor Apeliadau. Mae'r pwyllgorau hyn hefyd yn rhannu rhestr o banelwyr wrth gefn. Rhydd hyn hyblygrwydd ac mae'n helpu panelwyr i gynnal eu sgiliau ond mae'n bosibl y gallai gwrthdaro buddiannau ddigwydd o fod ag aelodaeth gyffredin o baneli'r pwyllgorau e.e. pe bai'r un person neu bersonau yn gwasanaethu ar y panel FtPC a'r Pwyllgor Apeliadau ar gyfer yr un materion. Rydym eisiau diwygio'r rheolau er mwyn atal hyn rhag digwydd.
- 6.4 Mae rhai sefyllfaoedd lle gallai'r Pwyllgor Apeliadau a'r FtPC fod yn ystyried yr un materion:
- i. Gall y Pwyllgor Apeliadau ofyn am gyngor gan y FtPC o dan reol 9(1)(d) Rheolau Pwyllgor Apeliadau (O.S.2010/1614).
 - ii. Efallai y bydd y Cofrestrydd yn ceisio cyngor gan y FtPC ynglŷn â chymhwyster i ymarfer ymgeisydd ar gyfer cofrestrriad (Rheolau Cofrestrriad 10(8) a (10)).

Ni fyddai'r FtPC yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y cais ond byddai'n cynghori'r Cofrestrydd, a fyddai wedyn yn penderfynu a fydd yn caniatáu'r cais. Pe bai'r Cofrestrydd yn gwrthod y cais, gallai'r ymgeisydd apelio i'r Pwyllgor Apeliadau yn erbyn y penderfyniad hwnnw (erthygl 39(1)(b), Gorchymyn Fferylliaeth).

- iii. Gall y Cofrestrydd benderfynu bod cofnod cofrestrai ar y gofrestr wedi ei gaffael drwy dwyll neu wedi ei wneud yn anghywir (erthygl 29(3), Gorchymyn Fferylliaeth). Gall cofnod cofrestrai gael ei ddileu oddi ar y gofrestr hefyd os amharwyd ar ei gymhwyster i ymarfer ar yr adeg y gwnaed y cofnod (erthygl 30, Gorchymyn Fferylliaeth). O dan reolau 19 a 20 y Rheolau Cofrestrriad, gall cofrestrai y cyflwynwyd iddo Hysbysiad o Fwriad i Ddileu [o'r gofrestr] wneud cais am wrandawriad. Os gwneir cais am wrandawriad, rhaid i'r Cofrestrydd atgyfeirio'r mater i'r FtPC. Byddai'r FtPC yn gwneud canfyddiadau seiliedig ar ffeithiau ac yn cynghori'r Cofrestrydd, ond y Cofrestrydd a fyddai'n penderfynu a ddylid dileu enw'r cofrestrai oddi ar gofrestr. Yna gellir apelio i'r Pwyllgor Apeliadau yn erbyn penderfyniad y Cofrestrydd (erthygl 39(1)(i)-(j), Gorchymyn Fferylliaeth).

- 6.5 Byddai rheol 2 drafft Diwygiad y Rheolau Darpariaethau Amrywiol yn atal aelodaeth gyffredin o baneli'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer a'r Pwyllgor Apeliadau lle gallai hyn arwain at wrthdaro buddiannau.

Cwestiwn 1

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i atal aelodaeth gyffredin o baneli'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer a'r Pwyllgor Apeliadau lle gallai hyn arwain ar wrthdaro buddiannau?**

7. Diwygiadau i Reolau Cofrestriad CFfC

7.1 Byddai'r diwygiadau a gynigir yn yr adran hon yn effeithio ar Reolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Cofrestriad) 2010 (O.S. 2010/1617). Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau a gynigir yn ymwneud â gweithredu'r gofyniad i gofrestrai fod â threfniant indemniad priodol mewn grym ac i gael gwybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol, fel amodau ei gofrestriad gyda ni.

Rheol 3 drafft - Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â threfniadau indemniad: cofrestredigion

7.2 Byddai hon yn gosod rheol 8A newydd yn y Rheolau Cofrestriad a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynol i gofrestredigion, pan fyddant yn derbyn hysbysiad gan y Cofrestrydd, i ddarparu gwybodaeth at ddiben penderfynu a oes trefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol iddynt (rheol 8A(1) drafft). Byddai angen darparu'r wybodaeth o fewn saith niwrnod neu unrhyw gyfnod hwy a bennir gan y Cofrestrydd (rheol 8A(3) drafft). Mae rheol 8A(2) drafft yn rhoi rhestr, nad sy'n gyflawn, o wybodaeth a allai fod yn ofynnol.

7.3 Byddai'n rhaid i gofrestredigion hefyd hysbysu'r Cofrestrydd o fewn saith niwrnod os byddant yn peidio â chael trefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol (rheol 8A(5) drafft).

7.4 Os na wnaeth cofrestrai ddarparu'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â'i yswiriant indemniad, gall y Cofrestrydd: wrthod adnewyddu'r cofrestriad; dileu cofnod y cofrestrai oddi ar y gofrestr, neu drin y methiant fel camymddwyn at ddibenion cymhwyster i ymarfer (rheol 8A(4) drafft).

Cwestiwn 2

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r ddyletswydd arfaethedig i gofrestredigion ddarparu gwybodaeth am eu trefniadau indemniad?**

Rheol 4 drafft – Cofnod ar y gofrestr

Trefniadau indemniad

- 7.5 Byddai hon yn diwygio rheol 10 y Rheolau Cofrestriad (cofnod ar y gofrestr). Byddai gofyn i ymgeisydd am gofrestriad ddatgan ei fod yn deall:
- na all ymarfer oni bai bod ganddo drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol;
 - rhaid iddo hysbysu'r Cofrestrydd o fewn saith niwrnod os bydd yn peidio â chael trefniant o'r fath mewn grym; a
 - gellir dileu ei gofnod oddi ar y gofrestr os nad oes trefniant o'r fath mewn grym (rheol 4(2) drafft).
- 7.6 Byddai ymgeiswyr yn cwblhau hunan-ddatganiad bod ganddynt, neu bydd ganddynt, drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol (gweler y Rheol Cofrestriad 10(3)(ga) bresennol). Yr eithriad i hyn fyddai pe bai ymgeisydd wedi ei ddileu oddi ar y gofrestr yn y gorffennol am fethu cydymffurfio â'r gofynion indemniad. Byddai gofyn i ymgeiswyr o'r fath ddarparu copi o'u polisi yswiriant neu drefniant indemniad arall, ynghyd â disgrifiad o'r gweithgareddau y bwriadant eu cynnal wrth ymarfer (rheol 4(5) drafft). Byddai angen i ymgeisydd a gwblhaodd hunan-ddatganiad hefyd ddarparu'r dystiolaeth ychwanegol hon pe bai'r Cofrestrydd yn gofyn amdani (rheol 4(6) drafft).

Hawlfraint y Goron a clawr blaen pasbort y DU

- 7.7 Yn 2012 diwygiwyd y Rheolau Cofrestriad fel na ddylai ymgeiswyr ar gyfer cofrestriad a ddarparodd gopi ardystiedig o basbort y DU fel tystiolaeth o hunaniaeth gynnwys tudalen flaen eu pasbort yn y copi ardystiedig. Gwnaed y newid hwn gan fod rhai ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd cael copi ardystiedig o'u pasbort cyfan oherwydd bod cyfreithwyr wedi gwrthod ardystio copi yn cynnwys y dudalen flaen, sydd â'r Arfbais Brenhinol arno, ar y sail fod hwn wedi ei warchod gan hawlfraint y Goron.
- 7.8 Gwnaed y diwygiad ond roedd y Cychwylgor Seneddol ar Offerynnau Statudol o'r farn y dylai'r rheol fod wedi datgan y gellid darparu copi o'r pasbort gyda neu heb y clawr blaen. Er bod y Pwyllgor yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r newid, dywedodd y gellid tybio fod gan bobl sydd wedi eu hawdurdodi i ardystio copïau o basbortau o dan y rheolau (notariaid, cyfreithwyr neu Gomisiynwyr Llwon) ddigon o arbenigedd cyfreithiol i lunio eu barn eu hunain ynglŷn â'r peryglon o gynnwys y dudalen flaen. Eu barn hwy oedd os yw cyfreithiwr yn fodlon ardystio copi o basbort cyfan, nid oes gan hynny unrhyw effaith anffafriol ar ei werth fel tystiolaeth, sef diben yr angen am ardystiad. Rydym felly'n cynnig diwygio'r rheolau fel y gall copi ardystiedig o basbort y DU gynnwys neu beidio â chynnwys y clawr blaen (rheol 4(3)(a) a (4) drafft).

Gwybodaeth o'r Saesneg

- 7.9 Byddai gofyn i ymgeisydd ar gyfer cofrestrriad hefyd ddarparu tystiolaeth bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg (rheol 4(3)(b)-(c) drafft). Bydd rhwymedigaeth ar y Cyngor i ymgynghori a chyhoeddi'r canllawiau ynglŷn â'r dystiolaeth, y wybodaeth a'r dogfennau y gellir eu darparu gan ymgeisydd at ddiben bodloni'r Cofrestrydd bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, a'r broses a ddefnyddir gan y Cofrestrydd i benderfynu ei fod yn fodlon bod gan y person y wybodaeth hon (gweler erthygl 23A, Gorchymyn Fferylliaeth, mewnosodwyd gan y Gorchymyn Gwybodaeth o'r Saesneg). Mae'r ymgynghoriad ar y canllawiau hyn yn rhedeg ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar ddiwygiadau i reolau. Fe welwch hwn ar ein gwefan yn www.pharmacyregulation.org/rules-and-guidance-consultation.

Cwestiwn 3

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â cheisiadau ar gyfer cofnod ar y gofrestr?**

Rheol 5 drafft – Adnewyddu cofnod ar y gofrestr

- 7.10 Byddai'n rhaid i ymgeisydd ar gyfer adnewyddiad nodi a oes ganddo, neu a fydd ganddo, drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol. Bydd yn rhaid iddo hefyd ddatgan ei fod yn deall:
- na all ymarfer oni bai bod ganddo drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol;
 - rhaid iddo hysbysu'r Cofrestrydd o fewn saith niwrnod os bydd yn peidio â chael trefniant o'r fath mewn grym; a
 - gellir dileu ei gofnod oddi ar y gofrestr os nad oes ganddo drefniant o'r fath mewn grym (rheol 5(2)(a)-(b) drafft).
- 7.11 Byddai'n rhaid i ymgeisydd ar gyfer adnewyddiad nodi a oes ganddo dystiolaeth sy'n dangos bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg (rheol 5(2)(c)-(d) drafft).
- 7.12 Byddai angen i ymgeiswyr hefyd ddarparu tystiolaeth ychwanegol os bydd hynny'n rhesymol ofynnol gan y Cofrestrydd at ddiben cadarnhau'r wybodaeth neu wrth wneud penderfyniad ar gais (rheol 5(3)-(4) drafft).

Cwestiwn 4

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am adnewyddu cofnod ar y gofrestr?**

Rheol 6 drafft – Gwneud anodiadau i gofnod ar y gofrestr

- 7.13 Byddai hon yn diwygio rheol 12 y Rheolau Cofrestriad, sy'n ymwneud â cheisiadau am anodiadau i gofnod ar y gofrestr, yn dynodi arbenigedd. Byddai'n rhaid i ymgeisydd am anodiad nodi a fyddai ganddo, pe caniateid yr anodiad, drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol (rheol 6(2) (b) drafft).
- 7.14 Pe bai'r ymgeisydd wedi ei ddileu oddi ar y gofrestr yn y gorffennol am fethu cydymffurfio â'r gofynion indemniad, byddai'n rhaid iddo ddarparu copi o'i bolisi yswiriant neu drefniant indemniad arall, ynghyd â disgrifiad o'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal wrth ymarfer (rheol 6(3) drafft).

Cwestiwn 5

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am anodiad i gofnod ar y gofrestr?**

Rheol 7 drafft – Adnewyddu anodiad a wneir i gofnod ar y gofrestr

- 7.15 Byddai hon yn diwygio rheol 13 y Rheolau Cofrestriad, sy'n ymwneud â cheisiadau am adnewyddu anodiad i gofnod ar y gofrestr, yn dynodi arbenigedd. Byddai'n rhaid i ymgeisydd ar gyfer adnewyddu anodiad nodi a fyddai ganddo, pe caniateid yr anodiad, drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol (rheol 7(2) drafft).
- 7.16 Pe na bai'r ymgeisydd yn darparu unrhyw ddogfennau, gwybodaeth neu dystiolaeth cefnogi sy'n ofynnol, byddai'r cais yn cael ei wrthod (rheol 7(3) drafft).

Cwestiwn 6

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer adnewyddu anodiad i gofnod ar y gofrestr?**

Rheol 8 drafft – Adfer cofnod ar y gofrestr

7.17 Byddai hon yn diwygio rheol 16 y Rheolau Cofrestrriad, sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer adfer cofnod ar y gofrestr h.y. cais i ddychwelyd i'r gofrestr wedi absenoldeb o hyd at flwyddyn. Byddai gofyn i ymgeisydd ar gyfer adfer ar y gofrestr i ddatgan ei fod yn deall:

- na all ymarfer oni bai bod ganddo drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol;
- rhaid iddo hysbysu'r Cofrestrydd o fewn saith niwrnod os bydd yn peidio â chael trefniant o'r fath mewn grym; a
- gellir dileu ei gofnod oddi ar y gofrestr os nad oes trefniant o'r fath mewn grym (rheol 8(2)(b) drafft).

7.18 Byddai'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer adfer ddatgan bod ganddynt, neu bydd ganddynt, drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol (gweler y Rheol Cofrestrriad 16(3)(a)(i)(ab)). Eithriad i hyn fyddai pe bai ymgeisydd wedi ei ddileu oddi ar y gofrestr yn y gorffennol am fethu cydymffurfio â'r gofynion indemniad. Byddai gofyn i ymgeiswyr o'r fath ddarparu copi o'u polisi yswiriant neu drefniant indemniad arall, ynghyd â disgrifiad o'r gweithgareddau y bwriadant eu cynnal wrth ymarfer (rheol 8(3) drafft).

7.19 Byddai'n rhaid i ymgeisydd ar gyfer adfer nodi bod ganddo dystiolaeth sy'n dangos bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg (rheol 8(2)(d) drafft).

Cwestiwn 7

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer adfer cofnod ar y gofrestr?**

Rheol 9 drafft – Adfer anodiad i gofnod ar y gofrestr

- 7.20 Byddai hon yn diwygio rheol 17 y Rheolau Cofrestriad, sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer adfer anodiad i gofnod ar y gofrestr, yn dynodi arbenigedd. Byddai'n rhaid i ymgeisydd ar gyfer adfer anodiad nodi a fyddai ganddo, pe caniateid yr anodiad, drefniant indemniad mewn grym sy'n rhoi yswiriant priodol (rheol 9(2) drafft).
- 7.21 Byddai'n rhaid i unrhyw ymgeisydd sydd wedi ei ddileu oddi ar y gofrestr yn y gorffennol am fethu cydymffurfio â'r gofynion indemniad ddarparu copi o'i bolisi yswiriant neu drefniant indemniad arall, ynghyd â disgrifiad o'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal wrth ymarfer (rheol 9(3) drafft).

Cwestiwn 8

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am adfer anodiad cofnod ar y gofrestr?**

8. Diwygiadau i Reolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad ac ati y CFFC

8.1 Byddai'r diwygiadau a gynigir yn yr adran hon yn effeithio ar Reolau y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad ac ati) 2010 (O.S. 2010/1615). Y newidiadau arfaethedig yw gweithredu'r gofyniad i gofrestrai fod â gwybodaeth o'r Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol, fel amod o'i gofrestrriad, ac i ganiatáu i ni ddechrau achos cymhwyster i ymarfer mewn achosion lle gall gwybodaeth gweithiwr fferyllol proffesiynol o'r Saesneg beri risg difrifol i ddiogelwch claf.

Rheol 10 drafft - Dehongliad

8.2 Byddai hon yn diwygio rheol 2 y Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad, sy'n diffinio termau a ddefnyddir yn y rheolau hyn. Byddai hyn yn rhoi diffiniad o 'honiad gwybodaeth o'r Saesneg' (honiad yr amherir ar gymhwyster person i ymarfer o ganlyniad i'r rheswm nad oes ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol).

Rheol 11 drafft – Gweithredu cychwynnol parthed honiadau

8.3 Byddai hon yn diwygio rheol 6 y Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad (gweithredu cychwynnol parthed honiadau). O dan y rheol hon, gallai ymchwiliad y CFFC i honiad gwybodaeth o'r Saesneg gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i'r person dan sylw gael archwiliad neu asesiad o'i wybodaeth o'r Saesneg ac i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniad o fewn cyfnod amser penodol (rheol 11(2)(b) drafft). Mae rheol 11(3) drafft yn rhoi rhagor o fanylion am y weithdrefn i'w dilyn. Os bydd y Cofrestrydd wedi rhoi cyfarwyddyd o'r fath a bod y person dan sylw wedi methu cydymffurfio â hyn, gallai'r Cofrestrydd drin y methiant hwnnw fel honiad o gamymddwyn a'i atgyfeirio, gyda neu heb yr honiad gwybodaeth o'r Saesneg, yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer (rheol 11(4)-(5) drafft).

Rheol 12 drafft – Hysbysiadau atgyfeirio a dogfennau sydd i'w darparu i bersonau dan sylw

8.4 Byddai hon yn diwygio rheol 7 y Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad (hysbysiadau atgyfeirio a dogfennau sydd i'w darparu i bersonau dan sylw). Pan atgyfeirir honiad gwybodaeth o'r Saesneg i'r Pwyllgor Ymchwilio, byddai gofyn i'r Cofrestrydd anfon copi i'r person dan sylw o'r canllawiau yn ymwneud â'r dystiolaeth, y wybodaeth a'r dogfennau y gellid eu darparu at ddiben bodloni'r Cofrestrydd bod ganddo wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, a'r broses y bydd y Cofrestrydd yn ei defnyddio i benderfynu a yw'n fodlon bod gan y person hwnnw'r wybodaeth hon (rheol 12(2) drafft). Byddai'r person hefyd yn cael ei hysbysu ynglŷn â phŵer y pwyllgor i'w gwneud hi'n ofynnol iddo gael archwiliad neu asesiad o'i wybodaeth o'r Saesneg (rheol 12(3) drafft).

Rheol 13 drafft – Ceisiadau ar gyfer adfer

8.5 Byddai hon yn diwygio rheol 8 y Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad (ceisiadau ar gyfer adfer). Byddai'r diwygiad hwn yn golygu y bydd angen i bersonau sydd wedi eu dileu oddi ar y gofrestr gan y Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer ac sydd wedyn yn gwneud cais am adfer (erthygl 57, Gorchymyn Fferylliaeth) efallai ddarparu tystiolaeth yn dangos bod ganddynt wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, fel rhan o'u tystiolaeth o gymhwyster i ddychwelyd i ymarfer (rheol 13(2) drafft). Mae'r weithdrefn lle gallai fod yn ofynnol i'r person gael archwiliad neu asesiad o'i wybodaeth o'r Saesneg i'w gweld yn rheol 13(3) drafft.

Rheol 14 drafft – Gweithdrefnau'r Pwyllgor Ymchwilio

8.6 Byddai hon yn diwygio rheol 9 y Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad (gweithdrefnau'r Pwyllgor Ymchwilio). O dan y rheol hon gallai'r Pwyllgor Ymchwilio, wrth ystyried honiad gwybodaeth o'r Saesneg, gyfarwyddo'r person dan sylw i gael archwiliad neu asesiad o'i wybodaeth o'r Saesneg ac i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniad i'r Cofrestrydd o fewn cyfnod penodol. Os byddai'r person dan sylw wedi methu cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, gallai'r Pwyllgor Ymchwilio atgyfeirio'r methiant hwnnw i'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer fel honiad o gamymddwyn a'i atgyfeirio, gyda neu heb yr honiad gwybodaeth o'r Saesneg.

Rheol 15 drafft – Gweithredu ar ôl derbyn atgyfeiriad honiad

8.7 Byddai hon yn diwygio rheol 13 Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad (gweithredu ar ôl derbyn atgyfeiriad honiad). O dan y rheol hon gallai'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer, wrth ystyried honiad gwybodaeth o'r Saesneg, gyfarwyddo'r person dan sylw i gael archwiliad neu asesiad o'i wybodaeth o'r Saesneg ac i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniad o fewn cyfnod penodol (rheol 15(2) drafft). Mae'r weithdrefn sydd i'w dilyn i'w gweld yn rheol 15(3) drafft.

Rheol 16 drafft – Tystiolaeth

- 8.8 Byddai hon yn diwygio rheol 24 y Rheolau Cymhwyster i Ymarfer a Diarddeliad (tystiolaeth). Byddai'r diwygiad yn caniatáu i'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer, wrth benderfynu a amherir ar gymhwyster person i ymarfer drwy beidio bod â gwybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, i roi ystyriaeth i unrhyw fethiant gan y person hwnnw i gael archwiliad neu asesiad o'i wybodaeth o'r Saesneg ac i ddarparu tystiolaeth o ganlyniad i'r archwiliad neu'r asesiad hwnnw.

Cwestiwn 9

- **A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig i achosion cymhwyster i ymarfer pan honnir nad oes gan weithiwr fferyllol proffesiynol y wybodaeth o'r Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol?**

Cwestiwn 10

- **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?**

Mae Rheolau CFfC (Diwygiad o Ddarpariaethau Amrywiol) 2015 i'w gweld yn atodiad 1.

Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn cyfres o gwestiynau, a nodir yma.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn nifer o ffyrdd:

- mynd i'n gwefan www.pharmacyregulation.org/rules-and-guidance-consultation ac ymateb ar-lein
- anfon neges e-bost at consultations@pharmacyregulation.org
- llenwi ffurflen ymateb yr ymgynghoriad a'i hanfon at:

**Draft amendments to rules consultation response
Rules lead, Strategy directorate
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London
E14 5LQ**

Gallwch atodi tudalennau ychwanegol os oes angen mwy o le arnoch i ymateb. Nodwch i ba gwestiynau y mae unrhyw dudalennau ychwanegol yn berthnasol.

Rhaid derbyn ymatebion erbyn
Dydd Iau 17 Rhagfyr 2015

Oni bai y byddwch yn gofyn, ni fyddwn yn cydnabod eich ymateb.

Sut y byddwn yn defnyddio eich ymateb

Defnyddir eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i'n cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i'n rheolau. Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn yr ydym wedi ei glywed. Efallai y byddwn yn dyfynnu eich ymateb yn yr adroddiad hwnnw neu mewn dogfennau eraill ond byddwn yn gwneud dyfyniadau gan unigolion yn ddiennw.

Efallai y byddwn yn cyhoeddi eich ymateb yn llawn oni bai eich bod yn ein hysbysu fel arall. Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod yn ystyried y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi yn un gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn warantu y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Efallai y bydd angen i'r CFFC ddatgelu gwybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (fel arfer Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998).

Os yw eich ymateb yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd awtomatig wedi'i gynhyrchu gan eich system TG ni fydd hyn, ynddo'i hun, yn rhwymol ar y CFFC.

Dienwir unrhyw wybodaeth monitro amrywiaeth y byddwch yn ei rhoi i ni ac fe'i defnyddir i adolygu effeithiolrwydd ein proses ymgynghori. Ni fydd yn llunio rhan o ymateb a gyhoeddir.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwygiadau drafft i reolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Cyhoeddi ymatebion

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod yn ystyried y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi yn un gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn eich sicrhau y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

A fydddech cystal â thynnu fy enw oddi ar fy ymateb a gyhoeddir

Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw bryderon ein bod yn cyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

Cwestiynau cefndir

Yn gyntaf, hoffem ofyn i chi am ychydig o wybodaeth gefndir. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall barn grwpiau, unigolion neu sefydliadau penodol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

A ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn – ewch i adran A
- ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A – Ymateb fel unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw: _____

cyfeiriad: _____

e-bost: _____

Lle ydych chi'n byw?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall (rhowch fanylion)

A ydych chi'n ymateb fel:

- gweithiwr fferyllol proffesiynol – Ewch i adran A1
- aelod o'r cyhoedd
- arall (rhowch fanylion)

Adran A1: Gweithwyr fferyllol proffesiynol

A ydych chi'n:

- fferylllydd
- technegydd fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau'r maes yr ydych yn gweithio'n bennaf ynddo:

- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa ysbyty
- sefydliad gofal sylfaenol
- addysg a hyfforddiant fferyllol
- diwydiant fferyllol
- arall (rhowch fanylion)

Os ydych yn gweithio mewn fferyllfa gymunedol, a ydych chi'n:

- berchennog fferyllfa
- cyflogai
- locwm hunangyflogedig

Adran B: Ymateb ar ran sefydliad

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw: _____

teitl eich swydd: _____

sefydliad: _____

cyfeiriad: _____

e-bost: _____

enw cyswllt ar gyfer ymholiadau: _____

rhif ffôn cyswllt: _____

A yw eich sefydliad yn:

- sefydliad fferyllol
- sefydliad sydd ddim yn un fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich sefydliad:

- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol
- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli masnach neu ddiwydiant
- fferyllfa annibynnol (fferyllfa gymunedol gydag 1-5 eiddo)
- fferyllfa luosog (fferyllfa gymunedol gyda mwy na 6 eiddo)
- mawr lluosog (fferyllfa gymunedol 100 neu fwy o eiddo)
- sefydliad neu grŵp GIG
- sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- adran neu sefydliad llywodraeth
- corff rheoleiddio
- arall (rhowch fanylion)

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn am y pwyntiau canlynol, er ein bod yn croesawu sylwadau ar unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynglŷn â'r diwygiadau drafft i'r rheolau.

1. A ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i atal aelodaeth gyffredin o baneli'r Pwyllgor Cymhwyster i Ymarfer a'r Pwyllgor Apeliadau lle gallai hyn arwain ar wrthdaro buddiannau? (gweler adrannau 6.1-6.5 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 1?

2. A ydych chi'n cytuno gyda'r ddyletswydd arfaethedig i gofrestrdigion ddarparu gwybodaeth am eu trefniadau indemniad?

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 2?

3. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â cheisiadau ar gyfer cofnod ar y gofrestr?
(gweler adrannau 7.5-7.9 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 3?

4. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am adnewyddu cofnod ar y gofrestr?
(gweler adrannau 7.10-7.12 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 4?

5. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am anodiad i gofnod ar y gofrestr?
(gweler adrannau 7.13-7.14 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 5?

6. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer adnewyddu anodiad i gofnod ar y gofrestr?
(gweler adrannau 7.15-7.16 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 6?

7. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer adfer cofnod ar y gofrestr?
(gweler adrannau 7.17-7.19 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 7?

8. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am adfer anodiad cofnod ar y gofrestr?
(gweler adrannau 7.20-7.21 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 8?

9. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig i achosion cymhwyster i ymarfer pan honnir nad oes gan weithiwr fferyllol proffesiynol y wybodaeth o'r Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol?

(gweler adrannau 8.1-8.8 y ddogfen ymgynghori)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 9?

10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

Monitro cydraddoldeb

Yn y CFFC rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein gwaith fel rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar newidiadau arfaethedig i reolau. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni fel y gallwn wirio bod hyn yn digwydd. Nid oes yn rhaid i chi ei llenwi, ac ni chaiff eich atebion ar y ffurflen hon eu cysylltu i'ch ymatebion i'r ymgynghoriad.

Beth yw eich grŵp ethnig?

Ticiwch un blwch

Gwyn

- Prydeinig Gwyddelig Arall

Du neu Ddu Prydeinig

- Caribiaidd Affricanaidd Arall

Cymysg

- Gwyn a Du Caribiaidd Gwyn a Du Affricanaidd
 Gwyn ac Asiaidd Cymysg arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd Pacistani
 Bangladeshi Asiaidd arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Tsieineaidd neu Tsieineaidd

Prydeinig

Grŵp ethnig arall

(rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich oedran?

Ticiwch un blwch

- dan 20 oed 20 – 29 oed 30 – 39 oed
 40 – 49 oed 50 – 59 oed 60 + oed

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- gwryw benyw arall

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

